

Siarter cydberthnasau gwirfoddoli a'r gweithle:

EGLURO A CHRYFHAU'R CYDBERTHNASAU RHWNG GWEITHWYR CYFLOGEDIG A GWIRFODDOLWYR



Cydweithio

Mae cydberthnasau cytûn rhwng gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus llyfn a diogel, gyda'r naill yn deall ac yn ategu rôl y llall.

Gall anawsterau godi, er enghraifft, pan nad yw'r ffiniau rhwng gweithwyr cyflogedig a rolau gwirfoddol yn glir, pan fo gwirfoddolwyr yn teimlo bod cyrff yn manteisio arnynt, neu pan deimlir bod rolau cyflogedig yn cael eu peryglu neu eu tanseilio gan bresenoldeb neu weithgareddau gwirfoddolwyr.

Gellir cyfyngu ar yr anawsterau hyn drwy ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y siarter hon.

Lle cynnig cynlluniau gwahanol, fel profiad gwaith, lleoliadau addysgol, interniaethau, gwirfoddoli ac ymwneud â defnyddwyr,

dylid bod yn glir p'un a yw'r rhain yn bodloni meini prawf 'gwirfoddolwr', 'gweithiwr', neu 'weithiwr gwirfoddol' fel y'u diffinnir o dan ddeddfwriaeth isafswm cyflog, neu p'un a oes eithriad yn berthnasol.

Mae angen trafodaeth reolaidd a chadarn ym mhob gweithle neu sefydliad er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol.

Mae cynnwys gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr ac undebau llafur yn helpu i sicrhau'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer gwirfoddoli llwyddiannus.



Egwyddorion y siarter

Caiff gwirfoddoli ei gynllunio'n strategol, nid ymateb i argyfwng ydyw

- **Nid yw gwirfoddoli'n dod am ddim;** cyllidebir adnoddau priodol ar gyfer hyfforddi, datblygu a threuliau allan o boced gwirfoddolwyr. Mae yna fuddsoddi er mwyn datblygu arweinwyr gwirfoddoli
- **Mae rhanddeiliaid perthnasol yn cytuno ar rolau gwirfoddol,** gan gynnwys gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr ac undebau llafur, a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd
- **Mae rolau gwirfoddol wedi'u dylunio i ddenu amrywiaeth o bobl,** er mwyn hwyluso ymgysylltiad cymunedol ehangach
- **Asesir rolau gwirfoddol** mewn perthynas â diogelu pobl a risg a rhoddir mesurau priodol ar waith. Mae prosesau recriwtio a sgrinio'n gymesur â'r risgiau perthnasol
- **Yn achos anghydfodau diwydiannol, ni ddefnyddir gwirfoddolwyr i ôl-lenwi rolau gweithwyr cyflogedig**

Mae gan wirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig rolau amlwg sy'n ategu ei gilydd

- **Mae rolau gwirfoddol yn hyblyg ac mae modd eu haddasu;** nid ydynt wedi'u dylunio i gydymffurfio â'r 'diwrnod gwaith' arferol. Mae gwirfoddoli'n fater o ddewis, ac mae gan wirfoddolwyr hawl i wirfoddoli neu beidio â gwirfoddoli

- **Ni ddylai gweithgareddau gwirfoddol beryglu na thanseilio safonau proffesiynol,** codau ymddygiad, cyflogau ac amodau na sicrwydd swydd
- **Mae rhesymau cadarnhaol dros gyfranogiad gwirfoddolwyr wedi'u nodi - nid lleihau costau ddylai'r ddiben fod Lle** mae contract ar gyfer darparu gwasanaeth, gwneir natur cyfranogiad gwirfoddolwyr yn glir
- **Mae modd adnabod gwirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig** er enghraifft drwy eu gwisg neu fathodyn adnabod

Mae gwirfoddoli'n dilyn arferion gorau cydnabyddedig

- **Mae gwirfoddolwyr, gweithwyr cyflogedig a'u hundebau llafur yn cymryd rhan** yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisiau a gweithdrefnau gwirfoddoli
- **Darperir hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol** i wirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig, er mwyn sicrhau bod cwnpas, ffiniau a disgwyliadau'r rolau'n glir; mae mynediad at gyfleoedd datblygu a dysgu priodol ar gaelis
- **Caiff prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion ac anawsterau eu cyfleu'n glir** - mae proses amlwg ar gyfer ymdrin ag anawsterau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, sy'n wahanol i'r polisi disgyblu staff
- **Mae gwirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig yn cyflawni eu dyletswyddau mewn amgylchedd saff, diogel ac iach,** heb aflonyddu, bwllo, trais na gwahaniaethu

Datblygyd y siarter hon gan Gyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), ac mae'n nodi'r prif egwyddorion ar gyfer gwirfoddoli llwyddiannus a chydberthnasau cadarnhaol yn y gweithle.

Mae gwaith cyflogedig yn cynnwys unrhyw weithgaredd sydd wedi'i gyfeirio gan gyflogwr ac y ceir tâl ariannol amdano. Cyflawnir gwirfoddoli drwy ddewis, am ddim budd ariannol ac er budd y gwirfoddolwr ac eraill yn y gymuned fel ei gilydd.

Ein cyd-destun

Mae traddodiad cryf yng Nghymru o gefnogi'r naill a'r llall a gwirfoddoli. Mae gwirfoddoli'n cynyddu cyfalaf cymdeithasol, cydlyniant cymunedol a chyfranogiad dinasyddion yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae'n meithrin llesiant unigol, cynhwysiant cymdeithasol a sgiliau ar gyfer twf personol a chyflogaeth. Mae CGGC a TUC Cymru wedi'u seilio ar ymgyrchu gwirfoddol ac ymwneud gwirfoddol.

Mae Cymru iachach a deddfwriaeth ddiweddar yn gwreiddio ymrwymiad i geisio modelau newydd a chynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau sydd â dinasyddion yn ganolog iddynt. Gall gwirfoddolwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio a darparu'r gwasanaethau, o wella profiad y defnyddiwr gwasanaeth, ac o greu dulliau mwy cyfannol ac integredig. Gall gwirfoddolwyr fod â rhan amlwg i'w chwarae mewn gwasanaethau cyhoeddus, heb ddyblygu na disodli gweithwyr cyflogedig.

Mae'r siarter hon gan TUC Cymru a CGGC, wedi'i chymeradwyo i'w ddefnyddio gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac undebau llafur, er mwyn ysgogi trafodaeth ac arferion da mewn perthynas ag ymwneud gwirfoddol effeithiol a phriodol, sydd er budd i bawb. Gall lywio datblygiad cydgytundebau lleol rhwng cyflogwyr a'u hundebau llafur, ond nid yw'n trechu cyd-gytundebau presennol.

Cefnogwyd datblygiad y siarter hon gan Helplu, sy'n gweithio gyda Chefnogi Trydydd Sector Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli i gefnogi gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

WcVA
CGGC

Wales
TUC
Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd, CF10 5FH
0300 1110124

Wales TUC Cymru
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9SD
029 2034 7019

Cyhoeddwyd Ionawr 2020

helplu
helpforce

